



Urdd Gobaith Cymru
Adran Chwaraeon yr Urdd
Cwestiynau Cyffredin: Cystadlaethau Chwaraeon 2021/22

1. Pwy sydd yn gyfrifol am gystadlaethau chwaraeon yr Urdd?

Adran Chwaraeon yr Urdd sydd yn gyfrifol am gystadlaethau chwaraeon rhanbarth a chenedlaethol. Gallwch ddarganfod manylion eich swyddog lleol trwy chwilio ar [FY ARDAL](#) neu am unrhyw ymholiadau cyffredinol gallwch gysylltu gyda chwaraeon@urdd.org

2. Pa gystadlaethau chwaraeon fydd yn digwydd eleni?

Plis gweler gwybodaeth bellach am gystadlaethau Chwaraeon yr Urdd 2021/22 [YMA](#), gyda rhaglen gadarn o gystadlaethau a digwyddiadau erbyn 29 Hydref 2021

Plis nodwch, mae'r trefniadau yma yn amodol ar ganllawiau COVID-19

3. Roedd yna gystadlaethau cylch yn fy ardal i. A fydd rhain yn parhau?

Mi fydd strwythur cystadlaethau Chwaraeon yr Urdd yn edrych yn wahanol i'r arfer eleni, gyda chyfuniad o gystadlaethau a digwyddiadau. Ystyriwn gystadlaethau cylch mewn ardaloedd ble'n angenrheidiol

4. Pa ganllawiau COVID-19 sydd mewn lle ar gyfer cystadlaethau a digwyddiadau?

Bydd cystadlaethau a digwyddiadau Adran Chwaraeon yr Urdd yn dilyn canllawiau a gweithdrefnau COVID Llywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol, a'r Cyrff Cenedlaethol Chwaraeon.